HAFOD

gwneud gwahaniaeth

Cyfrifon Blynyddol
2009

Adroddiad a Datganiadau Ariannol, blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

Cynnwys

	Tudalen
Aelodau'r Bwrdd, Uwch Swyddogion, Cynghorwyr a Bancwyr	2
Adolygiad Gweithredol ac Ariannol	3 – 5
Cyfrifoldebau'r Bwrdd am ei Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol	6
Llywodraethu Cymdeithasau Tai - Rheolaeth Ariannol Fewnol	7
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol KPMG LLP i Aelodau Bwrdd Cymdeithas Tai Hafod Cyfyngedig	8 – 9
Cyfrif Incwm a Gwariant	10
Mantolen	11
Datganiad Llif Arian	12
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	13 – 28

Aelodau'r Bwrdd, Uwch Swyddogion, Cynghorwyr a Bancwyr

Y Bwrdd

Cadeirydd Mr E Lewis

Aelodau eraill

Ms J Davies
Mrs V Ibbertson
Mr P Jones
Mrs J Keenor
Mrs G Kendall (o Gorffennaf 2009)
Mr D Morris
Dr A Napier
Mr G North
Mr B Payne
Ms S Sansom (o Gorffennaf 2009)
Ms S Sheppard
Mr J Singh MBE JP
Mrs S Tiburzio
Mr T Topham

Ysgrifennydd

Mr I Williams

Uwch Swyddogion

Rheolwr Gyfarwyddwr
Mr A Morgan

Cyfarwyddwr Gweithredol
Mr G Phillips

Swyddfa Gofrestredig

St Hilary Court
Ffordd Copthorne
Caerdydd CF5 6ES

Archwilwyr Mewnol

RSM Tenon
33 - 35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9HB

Archwilwyr Allanol

Tŷ Marlborough
Llys Fitzalan
Heol Fitzalan
Caerdydd CF24 0TE

Prif Gyfreithwyr

Hugh James
Hodge House
114-116 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1DY

Eversheds
1 Sgwâr Callaghan
Caerdydd CF10 5BT

Prif Fancwyr

Barclays Bank plc
Llys Windsor
3 Windsor Place
Caerdydd CF10 3ZL

Cofrestrwyd fel cymdeithas tai elusennol o dan y Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus, rhif 18766R

Cofrestrwyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, rhif L034

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno'i adolygiad gweithredol ac ariannol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009.

Y Gymdeithas

Mae Cymdeithas Tai Hafod Cyfyngedig ('y Gymdeithas') yn is-gwmni o Hendre Cyfyngedig (y 'rhiant' gwmni). Mae'r Gymdeithas yn gorff 'nid-er-elw', a weinyddir gan Fwrdd gwirfoddol. Ar bob amser rhaid i fwyafrif o'r Bwrdd fod yn gymwys i'w cyflogi gan Hendre Cyfyngedig.

Cofrestrwyd y Gymdeithas o dan amodau Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 2002 o dan reolau 'elusennol' a derbyniwyd fel elusen at ddibenion treth.

Prif Weithgareddau

Prif weithgareddau'r Gymdeithas:

- Datblygu dewis o dai fforddiadwy, safon uchel ar wahanol ddaliadaethau, wrth adeiladu tai newydd ac adnewyddu rhai eraill
- Rheoli a chynnal tai cymdeithasol y Gymdeithas, yn cynnwys cynnal a chadw strategol a gwelliannau er cyrraedd safonau ansawdd tai Cymru
- Cydweithio â grwpiau cynrychioladol a thenantiaid, cymunedau a phartïon eraill er mwyn datblygu cymunedau cynaladwy.

Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas yn gweithio ar draws ardaloedd 7 awdurdod lleol yn y de ddwyrain.

Aelodau'r Bwrdd ac Uwch Swyddogion

Nodir aelodau cyfredol y Bwrdd ar dudalen 1. Yn ogystal, gwasanaethodd yr aelodau isod ar y Bwrdd yn ystod y cyfnod:

Mr D Crompton (ymddeol Gorffennaf 2009)
Mr J Wreford (ymddeol Gorffennaf 2009)

Nid yw'r uwch swyddogion yn dal unrhyw gyfrannau yn y Gymdeithas ac nid oes unrhyw statws cyfreithiol ganddynt fel cyfarwyddwyr er eu bod yn gweithredu fel swyddogion ar sail awdurdod wedi'i ddirprwyo gan y Bwrdd. Gwasanaethodd yr holl uwch swyddogion drwy gydol y flwyddyn.

Yn 2009 adolygodd y Gymdeithas ei strwythur pwyllgorau ac erbyn hyn mae'n cynnal y tri phwyllgor isod ynghyd â'r prif Fwrdd:

- Rheoli Cyllid & Perfformiad
- Gwasanaethau Technegol
- Gwasanaethau Tai & Cymunedol.

Cyfrifoldebau Cyfredol Aelodau'r Bwrdd i'r Bwrdd ac i'r Gymdeithas

Disgwylir i'r Bwrdd weithredu ar bob amser er lles y Gymdeithas ac mae'n gyfrifol am reoli materion y Gymdeithas mewn modd effeithiol ac atebol. Mae wedi cytuno cyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd fel a ganlyn:

- Cynnal gwerthoedd ac amcanion y Gymdeithas
- Cynnal polisïau'r Gymdeithas yn cynnwys y polisi cyfleoedd cyfartal
- Rhannu cyfrifoldeb am benderfyniadau'r Bwrdd/Pwyllgor
- Darllen yr holl adroddiadau a chofnodion yn drylwyr
- Mynychu cyfarfodydd, sesiynau hyfforddi a digwyddiadau eraill o bryd i'w gilydd
- Datgan unrhyw ddiddordeb mewn trafodion y Gymdeithas, yn ariannol neu fel arall.

O fewn un mis o'u penodiad, rhaid i Aelodau'r Bwrdd lofnodi a chyflwyno datganiad i'r Bwrdd yn cadarnhau byddant yn cyfarfod â'u cyfrifoldebau i'r Bwrdd a'r Gymdeithas.

Sgiliau, Nodweddion a Phrofiad a Fynnir o'r Aelodau gan y Bwrdd

Rhaid i'r Bwrdd fod yn gymwys yn ei ystyr ehangach i weithredu ei rôl ddiffiniedig. Mae cymhwysedd yn yr ystyr ehangach yma'n galw am fwy na sgiliau penodol ac yn cynnwys y gallu i ddeall dylanwad gwaith y Gymdeithas ar gymunedau lleol a'r rhai bydd yn ceisio gwasanaethu. Yn ogystal, mae'n galw am ymrwymiad a chydlyniad wrth anelu am amcanion cyffredin.

Dylai Aelodau'r Bwrdd feddu ar y nodweddion angenrheidiol i gymryd penderfyniadau a monitro perfformiad y Gymdeithas. Bydd y Bwrdd yn cynnwys profiad o'r dilynol er mwyn ei alluogi i weithredu ei gyfrifoldebau'n effeithiol:

- Anghenion tai
- Rheolaeth (yn cynnwys rheoli staff ac eiddo)
- Cyllid
- Cysylltiadau ac anghenion cymunedol
- Cyflwyniadau cyhoeddus
- Materion a phryderon tenantiaid

Penodir pob aelod o'r Bwrdd ar sail ei ymrwymiad i amcanion y Gymdeithas. Ni fydd yr Aelodau'n cynrychioli unrhyw grwpiau arbennig.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Polisi o ran derbyn Cyfranddalwyr Newydd

Bydd y Gymdeithas yn derbyn aelodau o blith pobl a chyrff sy'n debygol o fod â diddordeb hir dymor mewn hyrwyddo gwaith y Gymdeithas. Byddant yn cynnwys cyrff y mae'r Gymdeithas wedi datblygu cysylltiadau positif â nhw, yn cynnwys cyrff mae'r Gymdeithas wedi sefydlu cytundebau asiantaeth neu bartneriaeth gyda nhw, ynghyd â chyrff gwirfoddol neu elusennol eraill bydd y Gymdeithas yn dod i gysylltiad â nhw trwy ei gwaith.

Gall yr aelodaeth gynnwys awdurdodau lleol a chyhoeddus eraill neu unigolion allweddol o fewn yr awdurdodau hynny. Bydd y Gymdeithas yn derbyn tenantiaid unigol fel aelodau.

Ni dderbynnir unigolion neu gyrff fel aelodau o dan amgylchiadau ble gallai unigolyn elwa'n ariannol neu fel arall.

Gwerthoedd ac Amcanion y Gymdeithas

Gweledigaeth y Gymdeithas yw bod yn ddarparwr dethol o gartrefi a gwasanaethau o safon uchel a chreu cymunedau bydd pawb yn falch o fyw ynddynt.

Mae cynllun corfforaethol y Gymdeithas, a ddiweddarwyd yn 2008, yn nodi amcanion strategol fydd yn ei galluogi i wireddu ei gweledigaeth:

- Uchafu'r ddarpariaeth o gartrefi o safon ar draws amrediad o ddaliadaethau
- Darparu gwasanaethau tai ardderchog ac adeiladu cymunedau cynaladwy
- Buddsoddi yn ein cartrefi a chyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru
- Gwella effeithiolrwydd er mwyn buddsoddi yn ein cartrefi, gwasanaethau a chymdogaethau.

Gwerthoedd craidd y Gymdeithas yw proffesiynoldeb, dibynadwyedd, dyfeisgarwch, amrywiaeth ac effeithiolrwydd.

Amcanion Tyfiant Busnes

Rydym hanner ffordd drwy gyfnod ein strategaeth gorfforaethol gyfredol, sy'n amlinellu ein cynlluniau ac amcanion hyd ddiwedd 2011.

Mae'r strategaeth yn cadarnhau prif nod y Gymdeithas, sef adeiladu cymunedau llewyrchus a chynaladwy, rhoi blaenoriaeth i anghenion cwsmeriaid, gan ystyried unrhyw newidiadau i'r anghenion hynny, ynghyd â rhai partneriaid a rhanddeiliaid. Yn ogystal, mae'n nodi sut bydd yr Asiantaeth yn sicrhau bydd yn parhau'n atebol ac ymatebol yn lleol, ac yn parhau i dyfu a darparu amrediad ehangach o wasanaethau.

Bydd y Gymdeithas yn ceisio cefnogi'r rhaglen grantiau tai cymdeithasol gyda nifer o fentrau, yn cynnwys cynlluniau prydlesu, adfer morgeisi a phrynu cartrefi (Homebuy).

Mae'r Gymdeithas yn aelod o gonsortiwm DEVCO, partneriaeth a sefydlwyd gan gymdeithasau tai lleol er mwyn datblygu a rheoli tai o safon a chreu gwaith, hyfforddiant a buddion economaidd er lles y cymunedau maent yn gweithio ynddynt.

Nod consortiwm DEVCO yw gweithio'n effeithiol mewn meysydd cyffredin, yn cynnwys projectau cyfalaf, caffaelio, gweithredu a gweinyddu ar draws y 12 awdurdod lleol y mae'r consortiwm yn gweithio ynddynt.

Perfformiad Cyfredol

Gwarged y Gymdeithas am y flwyddyn oedd £0.9m, o gymharu â £0.4m y flwyddyn flaenorol. Mae problemau'r farchnad dai wedi cael effaith sylweddol ar ganlyniadau'r flwyddyn, gyda'r gwarged o werthu asedau sefydlog (yn cynnwys gwerthu cartrefi 'Homebuy') yn £0.2m yn 2009, sef yr un lefel â 2008 a llawer is na'r hyn a dderbyniwyd yn y gorffennol.

Mae canlyniadau 2009 yn adlewyrchu ymrwymiad y Gymdeithas i gynnal cartrefi, nid yn unig i'r safonau cyfredol, ond i gymryd camau at gyrraedd Safonau Ansawdd Tai Cymru (2012). Yn ystod y flwyddyn buddsoddodd y Gymdeithas £2.8m (2008: £3.2m) wrth adnewyddu cartrefi.

Mae'r rhag amcanestyniadau ariannol cyfredol yn cynnwys y buddsoddiad angenrheidiol i gynnal a gwella cartrefi i'r safonau cymwys.

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol (parhad)

Rheoli Risgiau

Mae'r Bwrdd yn llwyr ymwybodol o'i gyfrifoldebau a bydd yn ceisio rheoli pob risg wrth gymryd camau addas a adolygir yn rheolaidd gan y Bwrdd. Bydd yn isafu risgiau mewnol wrth weithredu polisïau a gweithdrefnau a adolygir yn rheolaidd er sicrhau eu bod yn dal i ddiwallu anghenion y corff a dilyn arferion da cydnabyddedig.

Yn ddiweddar adolygodd y Gymdeithas ei dull rheoli risgiau, gan ddilyn trefn Grŵp Hendre o ddefnyddio Cydlynydd Llywodraeth Grŵp. Mae'r gwaith wedi diweddaru cofrestr risgiau a strategaeth risgiau'r corff.

Mae'r Bwrdd hefyd yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau am risgiau iechyd a diogelwch penodol a bydd yn ymdrechu i gynnal amgylchedd gweithio diogel ac iachus ar gyfer tenantiaid a staff. Mae cynrychiolydd gan y Gymdeithas ar Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Grŵp, sy'n cyfarfod yn rheolaidd i asesu risgiau a chamau cysylltiedig ym maes iechyd a diogelwch.

Bydd Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol y Grŵp yn monitro pob maes rheoli risgiau ac iechyd a diogelwch. Mae cynrychiolydd gan y corff ar y pwyllgor, fydd yn cyfarfod yn rheolaidd er sicrhau bydd trefniadau addas gan aelod gyrff i weithredu eu cyfrifoldebau yn y meysydd hynny.

Crynodeb Cyllid

Mae sylfaen asedau'r Gymdeithas yn dal i dyfu, drwy gyfrwng rhaglenni tai a gyllidir gan grantiau tai cymdeithasol, ynghyd â mentrau eraill wedi'u hariannu gan y Gymdeithas ei hun. Buddsoddodd y Gymdeithas £16.0m (2008: £9.9m) mewn cartrefi newydd i'w gosod, ar ôl ystyried trosglwyddiad cartref Tŷ Penrhos, Caerffili i Gymdeithas Gofal Hafod, a gwblhawyd yn Rhagfyr 2009. Parhawyd i gefnogi rhaglen ddatblygu'r Gymdeithas gyda chymorth grant tai cymdeithasol o £13.4m (2008: £2.6m).

Gwelwyd cynnydd bach iawn o £1.8m mewn benthyciadau allanol y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, gan ddwyn cyfanswm benthyciadau'r Gymdeithas ar ddiwedd y flwyddyn i £65.6m (2008: £63.8m).

Ar hyn o bryd mae gan y Gymdeithas adnoddau benthyca allanol heb eu defnyddio o £33m, a ddylai ddarparu cyllid allanol digonol i gynnal cynllun tyfiant y Gymdeithas am y ddwy flynedd nesaf.

Aelodau Staff

Cryfder y Gymdeithas yw ansawdd ac ymrwymiad ei aelodau staff. Bydd gallu'r Gymdeithas i wireddu ei hamcanion ac ymrwymiadau mewn modd effeithiol yn dibynnu ar gyfraniad staff drwy'r Gymdeithas.

Bydd y Gymdeithas yn parhau i ddarparu gwybodaeth am amcanion a gweithgareddau mewn cyfarfodydd gweithredol, tîm rheoli ac adrannol. Bydd y Gymdeithas yn trefnu rhaglenni hyfforddiant yn canolbwyntio ar ansawdd a gwasanaeth cwsmeriaid, ac yn gofyn aelodau staff am eu barn ar sut i wella gwasanaethau ac ar faterion cyffredinol.

Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Mae aelodau'r Bwrdd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn cadarnhau, hyd y gŵyr pob un ohonynt, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw archwilwyr y cwmni'n ymwybodol ohono; a bod pob aelod Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol fel aelodau i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac i sefydlu fod archwilwyr y cwmni yn ymwybodol o'r fath wybodaeth.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhelir y cyfarfod cyffredinol blynyddol ar ddydd Llun 28 Mehefin 2010 yn St Hilary Court, Ffordd Copthorne, Croes Cwrlwys, Caerdydd.

Archwilwyr

Mae cwmni KPMG LLP wedi ein hysbysu na fydd yn cynnig i'w ailbenodi yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol. O ganlyniad, fe wneir cynnig i benodi archwilwyr annibynnol newydd yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol.

Cymeradwywyd adroddiad y Bwrdd ar 2 Mehefin 2010 a llofnodwyd ar ei ran gan:

Elgar Lewis
Cadeirydd

Cyfrifoldebau'r Bwrdd am y Datganiadau Ariannol

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am baratoi adroddiadau'r Bwrdd a'r datganiadau ariannol yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau cymwys.

Mae deddfwriaeth Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus yn mynnu bod y Bwrdd yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y rheoliadau hynny, mae'r Bwrdd wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a deddfau cymwys (UK Generally Accepted Accounting Practice).

Yn ôl y gyfraith rhaid i'r datganiadau ariannol roi golwg wir a theg o sefyllfa'r Gymdeithas ac o'r gwarged neu'r diffyg am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae gofyn i'r Bwrdd wneud yr isod:

- Dewis polisïau cyfrifeg addas a'u gweithredu'n gyson
- Gwneud barnau ac amcangyfrifon rhesymol a chall
- Dilyn safonau cyfrifeg cymwys y Deyrnas Unedig a SORP (Statement of Recommended Practice), yn amodol ar ddatgelu unrhyw wyriadau sylweddol yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail corff gweithredol oni fydd yn amhriodol tybio bydd y Gymdeithas yn parhau mewn busnes.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg addas sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Gymdeithas ac yn ei galluogi i sicrhau bydd y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1968 i 2003; Deddf Tai 1996 a gofynion cyfrifeg Penderfyniad Cyffredinol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2009. Mae'n gyffredinol gyfrifol am gymryd unrhyw fesurau sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu asedau'r Gymdeithas ac i rwystro a datgelu twyll ac afreoleidd-dra arall.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gynnal ac integriti'r wybodaeth gorfforaethol ac ariannol ar wefan y Gymdeithas. Gallai deddfwriaeth y Deyrnas Unedig, sy'n rheoli paratoi a hysbysu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Llywodraethu Cymdeithasau Tai – Rheolaeth Ariannol Fewnol

Cylchlythyr Tai Cymru 028/09 "Rheolaeth Fewnol"

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynnu bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn paratoi adroddiad ar eu rheolaeth o faterion ariannol mewnol. Addaswyd y gofynion hyn ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol ac maent yn dilyn argymhellion adroddiad Pwyllgor Cadbury ar 'agweddau ariannol o reolaeth gorfforaethol', yn benodol paragraff 4.5 o'r 'Cod Arferion Gorau'.

Rheolaeth Ariannol Fewnol

Y Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am systemau rheoli ariannol mewnol y Gymdeithas, a ddyfeisiwyd er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol ond nid absoliwt o ran diogelu asedau, cynnal cofnodion cyfrifeg addas a darparu gwybodaeth ariannol ddibynadwy.

Cyflwynwyd y gweithdrefnau isod er mwyn rheoli materion ariannol mewnol yn effeithiol:

- Trefniadau rheoli ac adrodd clir
- Dulliau recriwtio gofalus a rhaglenni hyfforddiant ariannol effeithiol
- Llawlyfrau rheolau a gweithdrefnau ar gyfer staff
- Systemau cyfrifeg a rheoli sy'n darparu adroddiadau ariannol chwarterol a mynegeion perfformiad eraill er mwyn cymharu cyllidebau ac amcanestyniadau
- Amcanestyniadau rhaglenni busnes strategol treigl a chynlluniau datblygu 5 a 30 blynedd
- Monitro'r systemau rheoli gan bwyllgor llywodraeth gorfforaethol y Grŵp, yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr.

Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol y Grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob Bwrdd o fewn Grŵp Hendre, sy'n gyfrifol am fonitro pob agwedd ar reoli corfforaethol ar draws aelodau'r Grŵp, yn cynnwys rheolaeth ariannol, twyll a llygru, a threfniadau archwilio mewnol ac allanol.

Penodwyd Cydlynydd Llywodraeth Gorfforaethol Grŵp, sy'n gyfrifol am ddarparu amrediad llawn o swyddogaethau llywodraethol ar gyfer pob corff a'u Byrddau perthnasol, o fewn Grŵp Hendre. Mae'n adrodd i brif weithredwr y Grŵp a bydd yn cysylltu â Phwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol y Grŵp wrth ddarparu adroddiadau ar bob agwedd ar weithgareddau llywodraethol.

Yn ystod y flwyddyn, penododd y Bwrdd gwmni cyfrifwyr siartredig ac archwilwyr cofrestredig annibynnol (RSM Tenon) i weithredu fel archwilwyr mewnol y Gymdeithas ac fe gyflwynir ei adroddiadau i'w hystyried gan Fwrdd y Gymdeithas a phwyllgor llywodraeth gorfforaethol y Grŵp.

Adroddiad yr archwilwyr annibynnol KPMG LLP i aelodau Cymdeithas Tai Hafod Cyfyngedig

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cymdeithas Tai Hafod Cyfyngedig (y Gymdeithas) am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009 sy'n cynnwys y cyfrif incwm a gwariant, mantolen, datganiad llif arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifeg a nodir ynddynt.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r Gymdeithas fel corff yn unig, yn unol ag Atodlen 1 paragraff 16, Deddf Tai 1996 ac adran 9 Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1968. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn datgan i aelodau'r Gymdeithas ar y materion hynny y mae'n rhaid trafod mewn adroddiad archwilio ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn neu'n honni cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Gymdeithas ac aelodau'r Gymdeithas, fel corff, am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, neu ein barnau.

Cyfrifoldebau Perthnasol y Bwrdd a'r Archwilwyr

Yn ôl y datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd ar dudalen 6, Bwrdd Rheoli'r Gymdeithas sy'n gyfrifol am baratoi adroddiad y Bwrdd a pharatoi datganiadau ariannol yn unol â chyfraith a safonau cyfrifeg y Deyrnas Unedig (UK Generally Accepted Accounting Practice).

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, a safonau archwilio rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon).

Byddwn yn adrodd i chi ein barn os yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg ac wedi'u paratoi'n unol â Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1968 i 2003, Deddf Tai 1996 a gofynion cyfrifeg Penderfyniad Cyffredinol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2009. Yn ogystal, byddwn yn adrodd i chi os, yn ein barn ni, nad yw'r Gymdeithas wedi cadw cofnodion cyfrifeg addas, neu os na fyddwn wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer ein harchwiliad.

Byddwn yn darllen yr wybodaeth arall gyda'r datganiadau ariannol ac yn ystyried os yw'n gyson â'r datganiadau hynny. Byddwn hefyd yn ystyried oblygiadau ein hadroddiad os yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylweddol o fewn y datganiadau ariannol. Ni fydd ein cyfrifoldebau'n cynnwys unrhyw wybodaeth arall.

Llywodraeth Gorfforaethol

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, rydym wedi ystyried os yw datganiad y Bwrdd ar dudalen 7 yn dilyn gofynion Cylchlythyr Cymdeithasau Tai 028/09 ("y Cylchlythyr") 'Rheolaeth ariannol fewnol', ac os yw'r Bwrdd wedi darparu'r datgeliadau a fynnir gan y Cylchlythyr ac os yw'r datganiad yn gyson â'r wybodaeth a ddarparwyd wrth i ni archwilio'r datganiadau ariannol.

Sail Ein Barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â safonau archwilio rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon) a ddosberthir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys craffu, ar sail prawf, tystiolaeth berthnasol i'r symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a barnau sylweddol a wnaed gan y Bwrdd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac os yw'r polisïau cyfrifeg yn addas ar gyfer amgylchiadau'r Gymdeithas, wedi'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a pherfformiwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr ystyriwyd yn angenrheidiol er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol, boed wedi'u hachosi gan dwyll neu afreoleidd-dra arall neu wall. Wrth ffurfio ein barn fe wnaethom hefyd werthuso addasrwydd cyffredinol y dull o gyflwyno gwybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Adolygwyd cydymffurfiaeth y Gymdeithas â'r Cylchlythyr, gan ystyried Bwletin 1995/1 'Datgeliadau Llywodraeth Gorfforaethol' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Nid yw'r bwletin yn galw arnom i wneud gwaith ychwanegol angenrheidiol, ac ni fyddwn yn mynegi unrhyw farn ar effeithiolrwydd un ai system y Gymdeithas i reoli materion ariannol mewnol neu ar allu'r Gymdeithas i barhau i weithredu.

Adroddiad yr archwilwyr annibynnol KPMG LLP i aelodau Cymdeithas Tai Hafod Cyfyngedig (parhad)

Barn

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol yn:

- Rhoi golwg wir a theg yn unol ag arferion cyfrifeg cymwys y Deyrnas Unedig o faterion y Gymdeithas ar 31 Rhagfyr 2009 ac o'r gwarged am y cyfnod a ddiweddodd bryd hynny.
- Paratowyd yn unol â Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 2003, Deddf Tai 1996 a gofynion cyfrifeg Penderfyniad Cyffredinol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2009.

Yng nghyd-destun datganiad y Bwrdd ar reolaeth ariannol fewnol ar dudalen 7, yn ein barn ni mae'r Bwrdd wedi darparu'r datgeliadau a fynnir gan y Cylchlythyr ac nid yw'r datganiad yn anghyson â'r wybodaeth a ddatgelwyd gennym yn ystod ein gwaith i archwilio'r datganiadau ariannol.

E. Holiday (Uwch Archwilydd Statudol)
ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol

Cyfrifwyr Siartredig
Tŷ Marlborough
Llys Fitzalan
Heol Fitzalan
Caerdydd
CF24 0TE

Cyfrif Incwm a Gwariant
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

	Nodyn	2009 £'000	2008 £'000
Trosiant: Gweithgareddau parhaol	**3**	14,246	15,386
Llai: Costau gweithredu/costau gwerthu	**3**	(10,635)	(12,595)
Gwarged gweithredu: gweithgareddau parhaol	**3**	3,611	2,791
Gwarged ar werthu asedau sefydlog	**3**	150	162
Llog derbyniadwy ac incwm arall	**7**	219	349
Llog taladwy & costau tebyg	**8**	(3,052)	(2,950)
Gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn treth	**3**	928	352
Trethiant ar y gwarged ar weithgareddau cyffredin		-	-
Gwarged am y flwyddyn	**12**	928	352
Trosglwyddiadau o gronfeydd dynodedig	**11**	2	-
		930	352
Cronfeydd refeniw dygwyd ymlaen	**12**	16,439	16,087
Cronfeydd refeniw cariwyd ymlaen	**12**	17,369	16,439

Nid oedd unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig ac eithrio'r rhai a nodwyd yn y cyfrif incwm a gwariant.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y gwargedion uchod a'r gwargedion a gyfrifwyd ar sail cost hanesyddol yn y naill flwyddyn. O ganlyniad, ni chyflwynwyd nodyn gwargedion a diffygion hanesyddol.

Mantolen
Ar 31 Rhagfyr 2009

	Nodyn	2009 £'000	2009 £'000	2008 £'000	2008 £'000
Asedau sefydlog cyffyrddadwy					
Tai ar werth llyfr net	**13**	174,569		158,590	
Grant tai cymdeithasol	**14**	(91,121)		(77,679)	
Grantiau eraill	**14**	(11,710)		(11,710)	
			71,738		69,201
Buddsoddiadau asedau sefydlog					
Benthyciadau Homebuy	**16**	10,075		10,211	
Grantiau Homebuy	**16**	(4,276)		(4,365)	
			5,799		5,846
Asedau sefydlog cyffyrddadwy eraill	**17**		351		238
			77,888		**75,285**
Asedau cyfredol					
Dyledwyr taladwy ar ôl blwyddyn	**18**	5,000		2,500	
Stoc	**19**	-		2,787	
Dyledwyr taladwy o fewn blwyddyn	**20**	722		933	
Buddsoddiadau	**21**	8,424		4,113	
Arian yn y banc ac mewn llaw		139		113	
			14,285		10,446
Credydwyr: symiau dyledus o fewn blwyddyn	**22**		(8,540)		(3,533)
Asedau cyfredol net			**5,745**		**6,913**
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			**83,633**		**82,198**
Credydwyr: symiau dyledus ar ôl mwy na blwyddyn	**23**		(66,224)		(65,717)
Asedau net			**17,409**		**16,481**
Cynrychiolir gan:					
Cyfalaf & cronfeydd					
Cyfalaf cyfran di-ecwiti	**25**		-		-
Cronfeydd dynodedig	**11**		40		42
Cronfeydd refeniw	**12**		17,369		16,439
Cronfeydd y Gymdeithas	**29**		**17,409**		**16,481**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 2 Mehefin 2010 a llofnodwyd ar ei ran gan:

Cadeirydd Is-gadeirydd Ysgrifennydd

Datganiad Llif Arian
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

	Nodyn	2009 £'000	2008 £'000
Mewnlif arian net o weithgareddau	**30**	9,737	1,350
Enillion ar fuddsoddiadau & trin cyllid			
Llog derbyniwyd		219	349
Llog talwyd		(2,990)	(2,706)
All-lif arian net o enillion ar fuddsoddiadau & trin cyllid		(2,771)	(2,357)
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol			
Prynu ac adeiladu tai		(24,871)	(9,696)
Grant tai cymdeithasol derbyniwyd		14,355	2,497
Taliadau net i gaffaelio buddsoddiadau ased sefydlog (net o grant)		-	(1,978)
Prynu asedau sefydlog eraill		(171)	(121)
Gwerthu tai a buddsoddiadau ased sefydlog		8,690	348
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		(1,997)	(8,950)
Rheoli adnoddau hylif			
Cynnydd adneuon byr dymor		(4,311)	(2,504)
All-lif arian net o reoli adnoddau hylif		(4,311)	(2,504)
Mewnlif/(all-lif) arian net cyn ariannu		**658**	**(12,461)**
Ariannu			
Benthyciadau tai derbyniwyd		10,000	15,043
Benthyciadau tai ad-dalwyd		(8,132)	(5,228)
Benthyciadau rhwng cwmnïau		(2,500)	2,500
(All-lif)/mewnlif arian net o ariannu		(632)	12,315
Cynnydd/(gostyngiad) arian parod		**26**	**(146)**

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

1. Statws Cyfreithiol

Cofrestrwyd y Gymdeithas o dan Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 ac mae'n landlord cymdeithasol cofrestredig.

2. Prif Bolisïau Cyfrifeg

a) Sail Gyfrifeg

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol yn unol â safonau cyfrifeg ac adrodd ariannol cymwys y Deyrnas Unedig a SORP 2008 (Statement of Recommended Practice for Registered Social Landlords 2008), a gofynion cyfrifeg Penderfyniad Cyffredinol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2009. Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

b) Trosiant

Mae trosiant yn cynnwys:

- Incwm rhent a ffioedd gwasanaeth derbyniadwy yn y flwyddyn gan denantiaid a dalwyr prydlesi
- Incwm o nwyddau a gwasanaethau eraill a gyflenwyd yn y flwyddyn (heb TAW)
- Grantiau refeniw
- Incwm o werthu tai.

c) Pensiynau

Mae'r Gymdeithas yn cynnal cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig gyda Scottish Widows Fund & Life Assurance Society, gan ddileu'r gost i'r cyfrif incwm a gwariant ar sail croniad. Cedwir asedau'r cynllun ar wahân i asedau gweddill y Gymdeithas mewn cronfa annibynnol.

d) Asedau sefydlog – tai (tir ac adeiladau)

Nodir tai i'w gosod ar gost llai dibrisiant. Mae'r costau yn cynnwys pris prynu tir ac adeiladau, costau datblygu, a thaliadau llog yn ystod y cyfnod datblygu. Cyfalafir y llog ar gynlluniau penodol ar y pris benthyca cyfartalog. Nodir gwariant mewn cysylltiad â gwelliannau sy'n cynnwys moderneiddio cartrefi ("cartrefi cyfredol") a brynwyd er mwyn eu gosod. Dangosir gwargedion neu ddiffygion yn deillio o werthu tai a buddsoddiadau asedau sefydlog yn y cyfrif incwm a gwariant o dan gwargedion/diffygion o werthu asedau sefydlog.

Mae'r Gymdeithas wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn rhaglenni gwaith trwsio mawr er mwyn dwyn a chynnal cyflwr ei stoc dai ar Safonau Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012 a thu hwnt. Ystyrir bydd y buddsoddiad hwn yn gwella safonau tai'r Gymdeithas fydd yn talu ffordd wrth ddiogelu incwm rhent y dyfodol, gostwng costau cynnal a chadw neu ymestyn oes economaidd y tai. Bydd y Gymdeithas yn cyfalafu'r elfen o welliant i'r stoc ac yn ei dileu dros oes economaidd y stoc dai. Codir costau trwsio eraill ar y cyfrif incwm a gwariant.

Cyfalafir dim ond y costau gweinyddol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r rhaglen ddatblygu. Maent yn cynnwys costau staff uniongyrchol adran ddatblygu'r rhiant gwmni ynghyd ag unrhyw gostau cyfreithiol, proffesiynol neu ymgynghori trydydd parti sy'n rhan uniongyrchol o waith rheoli project.

e) Grant tai cymdeithasol

Derbynnir grant tai cymdeithasol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a defnyddir i ostwng costau cyfalaf ein tai.

Nodir gwerth y grant ar wahân ar y fantolen. Cynhwysir y grant tai cymdeithasol taladwy gan Lywodraeth y Cynulliad neu a dderbyniwyd ymlaen llaw fel ased neu rwymedigaeth gyfredol. Yn unol â chytundeb gyda Llywodraeth y Cynulliad cyfrifir y grant yn israddol i fenthyciadau.

Mae'r grant tai cymdeithasol yn ad-daladwy oni ostegir yn ffurfiol. Gellir defnyddio unrhyw grant sy'n ad-daladwy ar ôl gwerthu eiddo i ddatblygu tai newydd ar sail rhai amodau.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

f) Grantiau a sybsidis eraill

Mae'r rhain yn cynnwys grantiau a sybsidis gan awdurdodau lleol a chyrff eraill. Defnyddir grantiau cyfalaf i ostwng costau cyfalaf tai. Nodir gwerth y grantiau cyfalaf a'r sybsidis a dderbyniwyd ar wahân ar y fantolen.

Credydir grantiau mewn cysylltiad â gwariant refeniw ar y cyfrif incwm a gwariant yn yr un cyfnod â'r gwariant perthnasol.

g) Dibrisiant

Bydd y Gymdeithas yn dibrisio tai gosod ac asedau sefydlog cyffyrddadwy eraill er mwyn dileu cost yr asedau llai'r gwerth gweddilliol dros eu bywyd economaidd defnyddiol.

Seilir dibrisiant asedau ar yr isod:

Tai rhydd-ddaliad (net o grant a'r tir)

Tai anghenion cyffredin	hyd at 100 blynedd
Hostelau anghenion arbennig	hyd at 50 blynedd
Tai prydles (net o grant)	cyfnod y brydles
Offer gwasanaeth	5 – 10 blynedd

Dibrisir tai gosod o ddechrau'r flwyddyn yn dilyn yr un y dechreuwyd eu rheoli.

Ni ddibrisir tai rhanberchnogaeth gan y delir nhw i'w gwerthu ac ystyrir bod eu gwerth ar y farchnad o leiaf yn cyfateb i'r gwerth cario net.

Codir dibrisiant o flwyddyn gyfan ar asedau sefydlog eraill yn y flwyddyn y prynir nhw, ond ni fyddwn yn eu dibrisio yn y flwyddyn y gwaredir nhw.

h) Grantiau ailgylchadwy

Cynhwysir grantiau ailgylchadwy mewn perthynas â thai wedi'u gwerthu, a allai fod yn ad-daladwy i Lywodraeth y Cynulliad, fel credydwyr cyfredol neu hir dymor.

i) Cronfa adnewyddu offer

O dan amodau cytundebau gwasanaeth tenantiaid mae'n rhaid i'r Gymdeithas adnewyddu dodrefn ac offer sy'n gysylltiedig â rhai tenantiaethau. Sefydlwyd y gronfa hon er mwyn cyfarfod â'r rhwymedigaethau hyn yn y dyfodol.

j) Dyledion drwg ac amheus

Mae'r Gymdeithas yn dilyn polisi o wneud darpariaeth lawn ar gyfer holl ddyledion cyn-denantiaid, ynghyd â darpariaeth lawn ar gyfer holl ddyledion tenantiaid cyfredol o dros wyth wythnos ar ddyddiad y fantolen.

k) Treth ar werth

Mae'r Gymdeithas wedi cofrestru ar gyfer Treth ar Werth ond mae cyfran helaeth o'i hincwm yn rhydd o'r dreth ac felly mae'n arwain at rannol gyfrifiad eithrio. Felly, nodir gwariant yn cynnwys TAW, a'r TAW a adenillir o dan incwm arall.

l) Trethiant & trethiant gohiriedig

Nid yw gwargedion y Gymdeithas yn destun treth gan yr ystyrir yn elusen at ddibenion treth.

m) Stoc

Pan fydd y Gymdeithas yn caffaelio neu ddatblygu tai gyda'r nod o werthu o leiaf rhan ohonynt yn y dyfodol rhagweladwy, delir nhw fel stoc, a'u prisio ar yr isaf o'r gost neu'r gwerth gwireddadwy net.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

3. Trosiant, gwarged gweithredu a gwarged cyn treth

	Trosiant £'000	Costau gweithredu £'000	Costau gwerthu £'000	Gwarged gweithredu £'000	Llog derbyniadwy £'000	Llog taladwy £'000	**2009 Gwarged cyn trethiant £'000**	Trosiant £'000	Costau (+ costau gwerthu) £'000	Gwarged/ (diffyg) gweithredu £'000	2008 Gwarged/ (diffyg) cyn treth £'000
Incwm a gwariant gosod tai											
Tai	11,830	8,638	-	3,192		2,962	230	11,066	8,591	2,475	(395)
Llety rhan-berchnogaeth	248	28	-	220		90	130	217	84	133	53
	12,078	8,666	-	3,412		3,052	360	11,283	8,675	2,608	(342)
Incwm a gwariant arall											
Gwasanaethau perchnogaeth tai	102	61	-	41		-	41	84	84	-	-
Gwerthu tai (stoc)	1,918	-	1,817	101		-	101	3,933	3,450	483	483
Arall	148	91	-	57		-	57	86	386	(300)	(300)
Canlyniadau gweithredu	14,246	8,818	1,817	3,611		3,052	559	15,386	12,595	2,791	(159)
Gwerthu asedau sefydlog	8,752	62	8,540				150	2,137	1,208		162
Llog derbyniadwy					219		219				349
Gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn treth							928				352

O fewn incwm arall uchod, derbyniwyd yr isod

	2009	2008
Sgiliau Adfywio	Sero	£12,925
Cymorth elusennol	Sero	£12,500

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

4. Trosiant gosod tai

	Tai £'000	Rhan-berchnogaeth £'000	**2009 Cyfanswm £'000**	2008 Cyfanswm £'000
Rhenti	11,093	248	11,341	10,620
Costau gwasanaeth	711	-	711	618
Colledion rhent, tai gwag	(42)	-	(42)	(31)
	11,762	248	12,010	11,207
Grantiau refeniw	68	-	68	76
	11,830	248	12,078	11,283

5. Costau gweithredu tai gosod

	Tai £'000	Rhan-berchnogaeth £'000	**2009 Cyfanswm £'000**	2008 Cyfanswm £'000
Gwasanaethau	946	-	946	835
Rheoli	2,406	28	2,434	2,445
Cynnal a chadw beunyddiol (+ cylchol)	2,243	-	2,243	2,233
Gwaith trwsio mawr	2,366	-	2,366	2,520
Colledion rhent, drwg ddyledion	75	-	75	78
Dibrisiant ac amhariad eiddo	602	-	602	564
	8,638	28	8,666	8,675

Unedau o dan reolaeth, diwedd y flwyddyn

	2009 Nifer	2008 Nifer
Tai	3,281	3,197
Rhan-berchnogaeth	483	470
Rheoli ar brydles hir	186	186
	3,950	3,853

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

6. Gwarged gweithredu

	2009 £'000	2008 £'000
Nodir y gwarged gweithredu ar ôl codi:		
Dibrisiant – tai	602	563
Dibrisiant – asedau eraill	47	32
Taliadau archwilwyr allanol		
– Gwaith archwilio	23	23
– Gwasanaethau eraill	3	3
Rhenti prydlesi gweithredu (swyddfeydd)	44	44
Rhenti prydlesi gweithredu (eraill)	7	7

Ffioedd yr archwilwyr am wasanaethau eraill yn cynnwys ymgynghori ac adolygu costau gwasanaeth.

7. Llog derbyniadwy ac incwm arall

	2009 £'000	2008 £'000
Llog banc derbyniadwy	14	57
Llog derbyniadwy rhwng cwmnïau	205	292
	219	349

8. Llog taladwy & costau tebyg

	2009 £'000	2008 £'000
Llog ar fenthyciadau		
– ad-daladwy yn llawn o fewn 5 mlynedd	-	-
– ad-daladwy mewn rhandaliadau ymhen mwy na 5 mlynedd	3,288	2,324
– ad-daladwy nid mewn rhandaliadau	-	770
Llog gros taladwy	3,288	3,094
Llai llog datblygu cyfalafedig	(236)	(144)
	3,052	2,950

Cyfalafwyd llog ar gyfradd o 4.96% yn y flwyddyn (2008: 4.96%).

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

9. Manylion staff

Nifer staff cyfartalog a gyflogwyd yn y flwyddyn:

	2009 Nifer	2008 Nifer
Rheoli tai	61	54
Nifer staff a gyflogwyd ar ddiwedd y flwyddyn:	82	56

Cyflogwyd rhai o'r staff gan Hendre Cyfyngedig o dan gyd-gontractau cyflogaeth gyda holl is-gwmnïau'r grŵp.

Costau'r staff a gyflogwyd yn uniongyrchol gan Gymdeithas Tai Hafod:

	2009 £'000	2008 £'000
Cyflogau	1,437	1,203
Costau nawdd cymdeithasol	132	118
Costau pensiwn	110	99
	1,679	1,420

Mae'r costau pensiwn yn cynrychioli cyfraniadau gan y Gymdeithas at y cynlluniau pensiwn. Symiau taladwy i'r cynlluniau ar ddiwedd y flwyddyn oedd £9,812 (2008: £8,297).

Yn ogystal, cododd Hendre Cyfyngedig gostau staff o £857,043 (2008: £745,173) ar y Gymdeithas mewn cysylltiad â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan staff o dan gyd-gontractau cyflogaeth.

10. Taliadau aelodau ac uwch swyddogion

Taliadau i uwch swyddogion y Gymdeithas:

	2009 £'000	2008 £'000
Taliadau	150	143
Cyfraniadau pensiwn	18	17
Cyfanswm taliadau	168	160
Cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf		
Taliadau	90	87
Cyfraniadau pensiwn	11	10
Cyfanswm taliadau	101	97

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

10. Taliadau aelodau ac uwch swyddogion (parhad)

Cyfarwyddwyr a dderbyniodd daliadau (ac eithrio cyfraniadau pensiwn) yn yr amrediadau isod:	**2009 Nifer**	2008 Nifer
£50,001 – £55,000	-	1
£60,001 – £65,000	1	-
£85,001 – £90,000	1	1

Mae'r rheolwr gyfarwyddwr yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig y Gymdeithas gyda Scottish Widows Fund and Life Assurance Society. Nid yw ei aelodaeth yn destun telerau estynedig neu arbennig ac ni fydd y Gymdeithas yn gwneud cyfraniad at unrhyw drefniant pensiwn mewn cysylltiad â'r rheolwr gyfarwyddwr.

Ni wnaed unrhyw daliadau i aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Y treuliau a dalwyd i aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd £5,686 (2008: £5,144).

11. Cronfeydd dynodedig

	Adnewyddu offer £'000	**2009 Cyfanswm £'000**	2008 Cyfanswm £'000
Dechrau'r flwyddyn	42	42	42
I gronfeydd refeniw	(2)	(2)	-
Diwedd y flwyddyn	40	40	42

Defnyddir y cronfeydd adnewyddu offer dynodedig yn unol â'r anghenion i adnewyddu dodrefn, ffitiadau ac offer mewn cynlluniau penodol yn ôl yr angen.

12. Cronfeydd refeniw

	2009 £'000	2008 £'000
Dechrau'r flwyddyn	16,439	16,087
Gwarged am y flwyddyn	928	352
O gronfeydd dynodedig	2	-
Diwedd y flwyddyn	17,369	16,439

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

13. Tai

	Tai gosod £'000	Tai ar y rhaglen adeiladu £'000	Tai rhan-berchnogaeth ar y rhaglen adeiladu £'000	Tai rhan-berchnogaeth wedi'u cwblhau £'000	**2009 Cyfanswm £'000**	2008 Cyfanswm £'000
Cost						
Dechrau'r flwyddyn	151,855	6,820	-	5,650	164,325	154,493
Ychwanegiadau & costau cyfalaf eraill	453	15,854	-	-	16,307	9,915
Trosglwyddiad o Gymdeithas Gofal Hafod	7,709	-	-	-	7,709	-
Cynlluniau cwblhawyd yn y flwyddyn	9,205	(9,205)	-	-	-	-
Trosglwyddiad i Gymdeithas Gofal Hafod	-	(8,251)	-	-	(8,251)	-
Trosglwyddiad o stoc	970	-	-	-	970	-
Gwarediadau yn y flwyddyn	(28)	-	-	(126)	(154)	(83)
Diwedd y flwyddyn	170,164	5,218	-	5,524	180,906	164,325
Dibrisiant						
Dechrau'r flwyddyn	5,735	-	-	-	5,735	5,172
Cost am y flwyddyn	602	-	-	-	602	563
Gwarediadau yn y flwyddyn	-	-	-	-	-	-
Diwedd y flwyddyn	6,337	-	-	-	6,337	5,735
Gwerth llyfr net						
Diwedd y flwyddyn	163,827	5,218	-	5,524	174,569	158,590
Dechrau'r flwyddyn	146,120	6,820	-	5,650	158,590	149,321
Tai ar gost yn cynnwys:						
Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad					138,945	122,364
Tir ac adeiladau ar brydlesi hir					41,961	41,961
					180,906	164,325

Y costau gweinyddu datblygu uniongyrchol a gyfalafwyd yn y flwyddyn oedd £545,871 (2008: £328,372).

Cyfalafwyd llog o £235,985 (2008: £144,990) yn ystod y flwyddyn.

Gwariant gwaith trwsio mawr a gyfalafwyd yn y flwyddyn oedd £453,046 (2008: £653,508). Yn ogystal, gwariwyd £2,080,984 pellach ar waith trwsio mawr a dilëwyd ar y cyfrif incwm a gwariant.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

14. Grant tai cymdeithasol a grantiau eraill

Grant tai cymdeithasol	Tai gosod £'000	Tai ar y rhaglen adeiladu £'000	Tai rhan-berchnogaeth wedi'u cwblhau £'000	**2009 Cyfanswm £'000**	2008 Cyfanswm £'000
Dechrau'r flwyddyn	72,465	1,852	3,362	77,679	75,085
Derbyniadau	-	8,981	-	8,981	2,660
	72,465	10,833	3,362	86,660	77,745
Cynlluniau cwblhawyd yn y flwyddyn	4,929	(4,929)	-	-	-
Trosglwyddiad o Gymdeithas Gofal Hafod Cyf	4,569	-	-	4,569	-
Gostyngiad wrth werthu	(11)	-	(97)	(108)	(66)
Diwedd y flwyddyn	81,952	5,904	3,265	91,121	77,679

Grantiau eraill	**2009 Cyfanswm £'000**	2008 Cyfanswm £'000
Dechrau a diwedd y flwyddyn	11,710	11,710

Mae grant tai cymdeithasol yn ad-daladwy oni ostegir yn ffurfiol. Gellir defnyddio unrhyw grant ad-daladwy wrth werthu tai i ddatblygu tai newydd ar sail rhai amodau penodol.

15. Adolygiad amhariad

O dan FRS11 trefnir adolygiad dim ond os oes unrhyw arwydd o amhariad. Wrth bennu os oes amhariad wedi digwydd ai peidio, bydd y Gymdeithas yn ystyried ei hasedau cynhyrchu incwm yn unol â'r drefn ar gyfer adrodd a chyfrifo mewnol. Gwerth cario pob categori (cost llai SHG, grantiau eraill a dibrisiant) ar ddiwedd y flwyddyn oedd:

	2009 £'000	2008 £'000
Tai anghenion cyffredin	69,479	66,913
Llety rhan-berchnogaeth (yn cynnwys Homebuy)	8,058	8,134
	77,537	75,047

Ar ôl ystyried nifer o ffactorau, mae'r Gymdeithas yn fodlon nad oes unrhyw arwydd o amhariad i'r tai anghenion cyffredin ac arbennig, ac felly nid yw'n credu fod angen adolygiad amhariad cyflawn. Wrth ddod i'r casgliad yma, mae'r Gymdeithas wedi ystyried y galw cyfredol am dai o bob math ym mhob ardal, y lefelau colledion isel o dai gwag, llifau arian cyfredol ac amcanol, a buddsoddiad mewn gwaith cynnal a chadw a gwelliannau.

Ni ddibrisir tai rhan-berchnogaeth. Mae profiad diweddar o werthu tai yn y categori yma'n awgrymu gwargedion ac felly nid yw'r Gymdeithas yn ystyried fod unrhyw arwydd o amhariad ar hyn o bryd.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

16. Buddsoddiadau asedau sefydlog

Mae'r buddsoddiadau'n gysylltiedig â thai mae'r Gymdeithas wedi cyllido o dan gynllun Homebuy. Diogelir y buddsoddiad ar ffurf ail godiant ar bob tŷ. Mae hawl gan ddeiliad pob tŷ i'w brynu ar ei werth ar y farchnad. Ble cyllidwyd y buddsoddiad drwy grant gan Lywodraeth y Cynulliad, cyfyngwyd y swm ad-daladwy i Lywodraeth y Cynulliad i werth y grant gwreiddiol.

	2009 £'000	2008 £'000
Benthyciadau Homebuy		
Dechrau'r flwyddyn	10,211	8,327
Ychwanegiadau	-	2,005
Gwarediadau	(136)	(121)
Diwedd y flwyddyn	10,075	10,211
Grantiau		
Dechrau'r flwyddyn	4,365	4,460
Ychwanegiadau	-	27
Gwarediadau	(89)	(122)
Diwedd y flwyddyn	4,276	4,365
Buddsoddiad net, diwedd y flwyddyn	5,799	5,846
Buddsoddiad net, dechrau'r flwyddyn	5,846	3,867

17. Asedau sefydlog cyffyrddadwy eraill

Cost	Cyfrifiaduron, cerbydau, dodrefn ac offer swyddfa £'000	Offer gwasanaeth £'000	**2009 £'000**	2008 £'000
Dechrau'r flwyddyn	22	414	436	315
Ychwanegiadau yn y flwyddyn	38	133	171	121
Gwarediadau yn y flwyddyn	(3)	-	(3)	-
Diwedd y flwyddyn	57	547	604	436
Dibrisiant				
Dechrau'r flwyddyn	4	194	198	166
Cost am y flwyddyn	14	41	55	32
Gwarediadau yn y flwyddyn	-	-	-	-
Diwedd y flwyddyn	18	235	253	198
Gwerth llyfr net				
Diwedd y flwyddyn	39	312	351	238
Dechrau'r flwyddyn	18	220	238	149

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

18. Dyledwyr taladwy ar ôl mwy na blwyddyn

	2009 £'000	2008 £'000
Benthyciad i Hendre Cyfyngedig	5,000	2,500

Gwnaed benthyciad o £5,000,000 i Hendre Cyfyngedig ar 24 Rhagfyr 2006. Mae'r benthyciad yn destun llog beunyddiol ar gyfradd sefydlog o 5%. Ad-dalodd Hendre Cyfyngedig £2,500,000 yn 2008. Yn ystod 2009 cytunodd Hafod fenthyciad pellach o £2,500,000 i'w gymryd yn ôl i'r nenfwd o £5,000,000. Mae'r benthyciad yn ad-daladwy ar gais ar ôl 31 Rhagfyr 2010.

19. Stoc (tai ar werth)

	2009 £'000	2008 £'000
Tai	-	2,787

Yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â gwarediadau stoc yn creu gwarged o £101,000 (nodyn 3), trosglwyddodd y Gymdeithas un cynllun i asedau sefydlog (tai gosod).

20. Dyledwyr

	2009 £'000	2008 £'000
Dyledwyr taladwy o fewn blwyddyn:		
Dyledion rhent & costau gwasanaeth	986	1,002
Llai: darpariaeth dyledion drwg ac amheus	(565)	(568)
	421	434
Benthyciadau staff	14	5
Dyledwyr a blaendaliadau eraill	287	494
	722	933

Benthyciadau staff o £14,225 (2008: £5,430) yn cynnwys benthyciadau i bedwar (2008: dau) aelod staff. Mae telerau'r benthyciadau hyn yn cynnwys cyfnod ad-dalu o 3 blynedd a chyfraddau llog o 5% y flwyddyn (APR: 9.31%).

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

21. Adneuon banc

	2009 £'000	2008 £'000
Dros nos	1,424	1,113
Adnau 1 wythnos	-	1,000
Misol neu 3 mis	7,000	2,000
	8,424	4,113

22. Credydwyr: symiau dyledus o fewn blwyddyn

	2009 £'000	2008 £'000
Grantiau cyfalaf derbyniwyd ymlaen llaw	1,339	163
Grantiau cyfalaf ailgylchadwy	1,174	-
Benthyciadau tai	141	132
Llog ar fenthyciadau tai	587	525
Costau datblygu	726	611
Trethiant arall a nawdd cymdeithasol	81	47
Credydwyr eraill & croniadau	935	1,135
Credydwyr rhwng cwmnïau	3,557	920
	8,540	3,533

23. Credydwyr: symiau dyledus ar ôl mwy na blwyddyn

	2009 £'000	2008 £'000
Grantiau cyfalaf ailgylchadwy	743	2,095
Benthyciadau tai	65,481	63,622
	66,224	65,717

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

24. Benthyciadau tai

Diogelir benthyciadau tai gan godiannau penodol ar dai Cymdeithas Tai Hafod. Hoeliwyd y cyfraddau llog rhwng 4.5% a 15% neu byddant yn newid gyda'r farchnad.

	2009 £'000	2008 £'000
Ad-daladwy mewn rhandaliadau fel a ganlyn:		
Llai na blwyddyn	141	132
Rhwng un a dwy flynedd	147	139
Rhwng dwy & pum mlynedd	1,521	939
Pum mlynedd neu fwy	63,813	47,544
	65,622	48,754
Ad-daladwy nid mewn rhandaliadau:		
llai na phum mlynedd	-	-
mwy na phum mlynedd	-	15,000
	65,622	63,754

25. Cyfalaf cyfran di-ecwiti

	2009 £	2008 £
Cyfrannau £1 yr un wedi'u talu'n llawn a'u dyroddi ar par		
Dechrau'r flwyddyn	35	34
Cyfrannau dyroddwyd yn y flwyddyn	2	1
Diwedd y flwyddyn	37	35

Bydd cyfrannau'n rhoi hawl i aelodau bleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol, ond nid i unrhyw fuddran neu ddosbarthiad os diddymir y Gymdeithas.

26. Ymrwymiadau cyfalaf

	2009 £'000	2008 £'000
Gwariant contractiwyd llai ardystiedig	5,921	4,741
Gwariant awdurdodwyd gan y Bwrdd ond heb ei gontractio	-	-
	5,921	4,741

Mae'r Bwrdd yn rhagweld bydd unrhyw wariant awdurdodedig yn cael ei gyllido'n llawn gan grantiau, morgeisi a chronfeydd.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

27. Rhwymedigaethau amodol

Nid yw'r Gymdeithas yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau amodol ar ddiwedd y flwyddyn (2008: sero)

28. Prydlesi gweithredu

Ar 31 Rhagfyr 2009 roedd gan y Gymdeithas rwymedigaethau blynyddol o dan brydlesi gweithredu swyddfeydd ac offer fel a ganlyn:

	2009 £'000	2008 £'000
Prydlesi'n dod i ben :		
O fewn blwyddyn	-	-
Rhwng dwy & pum mlynedd	7	7
Ar ôl mwy na phum mlynedd	44	44
	51	51

29. Cysoni symudiadau cronfeydd

	2009 £'000	2008 £'000
Dechrau'r flwyddyn	16,481	16,129
Gwarged am y flwyddyn	928	352
Diwedd y flwyddyn	17,409	16,481

30. Cysoni'r gwarged gweithredu â'r mewnlif arian net o weithgareddau

	2009 £'000	2008 £'000
Gwarged gweithredu	3,611	2,791
Dibrisiant asedau sefydlog cyffyrddadwy	657	595
Symudiadau cyfalaf gweithredu:		
Gostyngiad/(cynnydd) mewn stoc	2,787	(373)
Gostyngiad/(cynnydd) mewn dyledwyr	211	(508)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr	2,471	(1,155)
Mewnlif arian net o weithgareddau	9,737	1,350

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

31. Cysoni'r mewnlif arian net â'r newid mewn dyledion net (nodyn 32)

	2009 £'000	2008 £'000
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian yn y cyfnod	26	(146)
Mewnlif arian o newidiadau mewn dyled	(1,868)	(9,815)
All-lif arian o reoli adnoddau hylif	4,311	2,504
Symudiadau mewn dyledion net yn y cyfnod	2,469	(7,457)
Dyledion net ar 1 Ionawr	(59,528)	(52,071)
Dyledion net ar 31 Rhagfyr	(57,059)	(59,528)

32. Dadansoddi newidiadau mewn dyled net

	Ar 1 Ionawr 2009 £'000	**Llifau arian £'000**	**Ar 31 Rhagfyr 2009 £'000**
Arian yn y banc ac mewn llaw	113	26	139
Dyledion taladwy mewn llai na blwyddyn	(132)	(9)	(141)
Dyledion taladwy mewn mwy na na blwyddyn	(63,622)	(1,859)	(65,481)
Adneuon banc	4,113	4,311	8,424
Cyfanswm	(59,528)	2,469	(57,059)

33. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r Gymdeithas, Cymdeithas Tai Hafod, Cymdeithas Tai Rhondda, Foundation Housing Tai Sylfaen, Yellow Wales a Thornhill Construction Limited yn is-gwmnïau o Hendre Cyfyngedig ac wedi manteisio ar yr eithriadau yn FRS8, felly nid yw wedi datgelu trafodion neu falansau'r grŵp ble mae 100% o'r ecwiti o dan reolaeth y grŵp a'i riant yn cyhoeddi cyfrifon cyfun.

Nid oedd gan uwch swyddogion neu aelodau Bwrdd y Gymdeithas unrhyw drafodion parti perthnasol gyda'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn oedd angen eu datgelu.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2009

33. Trafodion partïon cysylltiedig (parhad)

Roedd yr unigolion isod a wasanaethodd ar Fwrdd y rhiant neu ei is-gwmnïau hefyd yn denantiaid neu brydleswyr gyda'r is-gwmnïau:

		Hendre Cyfyngedig	Cymdeithas Tai Hafod Cyfyngedig	Cymdeithas Gofal Hafod Cyfyngedig	Cymdeithas Tai Rhondda Cyfyngedig	Foundation Housing/ Tai Sylfaen Limited	Yellow Wales
Mrs V Ibbertson	Tenant - Gofal Hafod	-	Bwrdd	Bwrdd	-	-	-
Mr I Jenkins	Prydlesydd - Tai Hafod	Bwrdd	-	Bwrdd	-	-	-
Mrs G Kendall	Tenant - Tai Hafod	-	Bwrdd	-	-	-	-
Mrs S Sansom	Tenant - Tai Hafod	-	Bwrdd	-	-	-	-
Ms A Page	Tenant - Tai Rhondda	-	-	-	Bwrdd	-	-
Ms J Williams	Tenant - Tai Rhondda	-	-	-	Bwrdd	-	-
Mr R Sparks	Tenant - Tai Rhondda	-	-	-	Bwrdd	-	-
Ms C Roberts	Tenant - Tai Rhondda	-	-	-	Bwrdd	-	-
Mr S Jones	Tenant - Tai Rhondda	-	-	-	Bwrdd	-	-

Seiliwyd tenantiaethau'r Aelodau Bwrdd hyn ar y telerau masnachol arferol ac ni fydd eu swyddogaeth fel Aelodau Bwrdd yn rhoi unrhyw fantais iddynt fel tenantiaid neu brydleswyr. Roedd yr unigolion isod, a wasanaethodd ar Fyrddau un ai'r rhiant neu ei is-gwmnïau, hefyd yn Gynghorwyr gydag awdurdodau lleol cysylltiedig:

		Hendre Cyf	Tai Hafod	Gofal Hafod	Tai Rhondda	Foundation	Yellow Wales
Cyng J Singh MBE, JP	Cyngor Dinas Caerdydd	-	Bwrdd	Bwrdd	-	-	-
Cyng J H Tildesley	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont	-	-	-	-	-	Bwrdd

Gwneir unrhyw drafodion gyda'r awdurdodau lleol uchod (ac unrhyw endidau cysylltiedig neu fasnachol) ar hyd braich, ar delerau masnachol arferol ac ni fydd y Cynghorwyr yn gallu defnyddio eu rolau er lles eu hunain.

34. Is-gwmnïau

Ar 8 Ionawr 2008 daeth Yellow Wales, cwmni cyfyngedig gan warant (rhif 05154189), yn is-gwmni o Gymdeithas Tai Hafod Cyfyngedig. Caffaeliwyd Yellow Wales am ystyriaeth ariannol o sero. Mae Yellow Wales hefyd yn elusen gofrestredig (rhif 1105272).

Yellow Wales

Gwlad ymgorffori: Cymru a Lloegr Gweithgaredd: Gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc ddigartref	**2009** **£**	9 mis hyd 31/03/2008 £
Cronfeydd agreg	41,405	33,732
Gwarged am y 9 mis/blwyddyn	7,673	15,085

Ni chyfunwyd datganiadau ariannol Yellow Wales o fewn Cymdeithas Tai Hafod Cyfyngedig am eu bod wedi'u cyfuno â'r rhiant gwmni, Hendre Cyfyngedig. Yellow Wales, Fflat 4, Tŷ Hartshorn, Heol Castell-nedd, Maesteg, CF34 9EE.